| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 4 Mehefin 2018 |
| **Pwnc:** | Trafnidiaeth Ysgolion |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno diweddariad ar weithrediadau yn dilyn Adroddiad Archwilio |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng R G Parry OBE Frgs<br>Cyng R Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Arwyn Williams a Dewi R Williams |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Trevor Francis<br>01248 752351<br>TrevorFrancis@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Ddim yn berthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:-<br>1.1 Y cynnydd sylweddol yn y gwaith i leihau'r risgiau gwreiddiol yn yr adroddiad Archwilio Medi 2017<br>1.2 Penderfyniad y Pwyllgor Archwilio ar 24 Ebrill, 2018 i nodi fod cynnydd da wedi'i wneud ac nid oedd unrhyw gamau pellach eu hangen. |
| |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae Addysg yn ran annatod o ddatblygiad bob plentyn ac mae sicrhau eu presenoldeb yn yr ysgol yng nghyd fynd yn llwyr gydag amcan y Cyngor i "Greu'r amodau fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial tymor hir" (Cynllun y Cyngor 2017/2022). |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor |

- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

[ffocws ar lesiant]

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Adroddwyd cynnydd I'r Pwyllgor hwn ym mis Ionawr 2018. Penderfynodd y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad ac i ofyn am ddiweddariad i'r cyfarfod hwn.

Ers mis Ionawr mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi ymygymryd ag archwiliad pellach ac adroddodd fel a ganlyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Ebrill 2018:-

**"Cludiant Ysgol**

| Cynnydd Da | | Materion / risgiau Gwreiddiol | Materion / risgiau sy'n parhau i fod angen sylw |
|---|---|---|---|
| | Dyddiad yr Adroddiad | Medi 2017 | Ebrill 2018 |
| | Sicrwydd | Cyfyngedig | Rhesymol |
| | Catastroffig | 0 | 0 |
| | Uchel | 7 | 0 |
| | Cymedrol | 7 | 3 |
| | Isel | 2 | 2 |

1. *Cadarnhaodd ein adolygiad fod cryn gynnydd wedi cael ei wneud tuag at wella trefniadau Cludiant Ysgol a rhoi sylw i'r Materion/Risgiau a godwyd yn ein hadroddiad.*
2. *Mae 11 o'r risgiau a nodwyd yn ein hadroddiad adolygu wedi cael sylw llawn. Mae 3 risg wedi cael eu gweithredu'n rhannol neu yn y broses o gael sylw; mae'r rhain yn ymwneud â rhoi bathodynnau adnabod i'r holl yrwyr bysus ysgol ym mis Medi 2018, gweithrediad y system Capita ONE ac adolygu meini prawf cymhwyster tacsis ysgol ynghyd ag adolygu'r gyllideb tacsis ysgol.*
3. *Mae 2 risg yn parhau i fod angen sylw ac mae'n yn ymwneud â'r broses gaffael nesaf pryd bydd yr Adain Gludiant yn adolygu telerau ac amodau ei chontractwyr cyfredol.*
4. *O'r gweithredoedd sy'n parhau i fod angen sylw (gan gynnwys gweithredoedd sydd wedi eu gweithredu'n rhannol), mae dau yn parhau i fod o fewn y dyddiad targed ar gyfer eu gweithredu. Fodd bynnag, mae'r*

*holl ddyddiadau targed wedi cael eu hadolygu a'u hymestyn yn seiliedig ar y diweddariadau a gafwyd. Lle mae hynny'n angenrheidiol, mae'r graddfeydd blaenoriaeth wedi cael eu hailasesu er mwyn cymryd i ystyriaeth y gweithredoedd hyd yma ac mae dyddiadau targed newydd ar gyfer gweithrediad wedi cael eu cytuno.*

*Mae'r Cyngor wedi gwneud 'Cynnydd Da' o ran mynd i'r afael â'r Risgiau/Materion ac o ganlyniad mae'r raddfa sicrwydd wedi codi i '**Sicrwydd Rhesymol'***

**Penderfynodd** y Pwyllgor i nodi'r sefyllfa ac ni amgrymwyd unrhyw gamrau pellach.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Mae unrhyw newidiadau i drafnidaeth ysgol yn mynd i gael effaith ar y plant sydd yn mynchu'r ysgol ond nid oes unrhyw effaith negyddol o weithredu'r Cynllun hyd yma. Bydd angen ail asesu'r effaith wrth adolygu polisi trafnidaieth ysgol. Mae'r trefniadau newydd rhwng y Gwasanaethau Dysgu a Phriffyrdd yn cryfhau'r sicrwydd Diogelu oddi fewn i'r drefn ysgolion a dysgu ac felly gellir ei gweld fel effaith bositif. Nid oes unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg a gall fod ag effaith bositif pan ysgrifennir y manyldebau ar gyfer contractau newydd.

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb bresennol ar gyfer darparu tacsis ar gyfer 2018 - 19 yn aros yr un fath ag 2017 – 18. Yn ystod y flwyddyn ariannol rheolir darparu cludiant ysgol yn defnyddio system Capita ONE a fydd yn darparu mynediad i optimeiddio teithiau. Rhoddir estyniad i gytundebau tacsis presennol yn ystod tymor yr Hydref 2018 - a dyfernir cytundebau newydd o Dymor y Gwanwyn 2019. Cred y Gwasanaeth Dysgu y bydd adolygu'r polisi a'r trefniadau presennol ynghyd â'r system Tranport One yn galluogi i'r oblygiadau ariannol gael eu hasesu bryd hynny.

**8 – Atodiadau**

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**